Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu
25 Medi 2020

COFNODION

Yn bresennol

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Lee Jones - Cadeirydd (LJ)	Prif Weithredwr (Interim)
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd

Heddlu De Cymru

Marc Attwell (MA)	Uwch-arolygydd, Gwasanaethau Corfforaethol
Jenny Gilmer (JG)	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Scott Lloyd (SL)	Prif Arolygydd
Martyn Jones (MJ)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Aelodau PALG

Claire Skidmore (CS)	Race Equality First
Alex Drummond (AD)	Aelod Annibynnol
Holly Taylor (HT)	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Nia Ballard (NB)	Platfform
Judith Major (JM)	Hafal
Liz Baker (LB)	Barnardos

1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a nododd ymddiheuriadau. Dywedodd LJ fod agenda ddiwygiedig wedi'i dosbarthu, am fod trefn yr eitemau ar yr agenda wedi newid ychydig. Nododd LJ mai'r bwriad gwreiddiol oedd dangos fideos o gamerâu a wisgir ar y corff ar gyfer stopio a chwilio. Fodd bynnag, roedd problemau technolegol wedi atal hyn rhag digwydd. Dywedodd LJ ei fod yn gobeithio y byddai'n gallu dangos y fideos pan fyddai modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb eto.

2. Diweddariadau ar gamau gweithredu

(i) Ceisio gwybodaeth am y broses o gofnodi Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer casglu data ethnigrwydd.

Dywedodd MA fod y ffurflen hysbysiad cosb benodedig wedi'i hadolygu gan yr heddlu. Nododd MA fod y ffurflen yn un genedlaethol. Cadarnhaodd MA fod y ffurflen yn cynnwys y ddau ddull cyffredin o gofnodi ethnigrwydd, sef ‘ethnigrwydd hunan-ddiffiniedig’ ac ‘ethnigrwydd wedi'i ddiffinio gan swyddog’. Fel y nodwyd yn y cyfarfod ym mis Mehefin, nid oedd ethnigrwydd unigolion a gafodd hysbysiad cosb benodedig wedi'i gofnodi yn achos 35 o gofnodion. O ganlyniad i'r bwlch hwn yn y data, dywedodd MA wrth y grŵp fod MA wedi

gofyn am adolygiad o'r deunydd fideo o gamerâu a wisgir ar y corff ar gyfer y 35 o gofnodion lle nad oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi. O blith yr 35 o achosion hynny, roedd y swyddog a adolygodd y deunydd fideo o'r farn bod 27 o'r unigolion yn 'Wyn', bod pedwar yn 'Asiaidd', bod dau yn 'Ddu', bod un yn perthyn i'r categori 'Ethnigrwydd Cymysg' a bod un yn perthyn i'r categori 'Arall'. Ar ôl cynnal yr adolygiad, roedd MA yn fodlon nad oedd y data wedi cael eu camystumio drwy amryfusedd, am nad oedd y wybodaeth hon wedi cael ei chofnodi yn wreiddiol ar ffurflenni Hysbysiad Cosb Benodedig.

(i) <u>Dadansoddiad o ddata mewn perthynas â data ar ddiogelu ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed.</u>

Nododd MA fod data ar unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu cofnodi mewn sawl man ar NICHE, sef system rheoli data'r heddlu. O ganlyniad i hyn, roedd yn eithaf anodd mesur perfformiad o ran y ffordd roedd yr heddlu yn ymdrin ag unigolion sy'n agored i niwed, oherwydd y set gymhleth o senarios roedd yr heddlu yn ymdrin â nhw. Fodd bynnag, dywedodd MA fod yr heddlu yn cynnal cyfarfodydd diogelu'r cyhoedd strategol misol, a oedd yn canolbwyntio ar unigolion sy'n agored i niwed. Drwy'r cyfarfodydd hyn, gallai'r heddlu fonitro gwahanol ddangosyddion natur agored i niwed er mwyn sicrhau bod yr adnoddau cywir yn cael eu defnyddio i ateb y galw a bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Dywedodd MA wrth y grŵp fod yr heddlu wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar, a ystyriodd atgyfeiriadau at system yr heddlu drwy ddod i gysylltiad â swyddogion yn benodol o safbwynt ethnigrwydd a hil. Roedd y data a adolygwyd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a mis Medi 2020. Nododd MA fod yr adolygiad o'r wybodaeth hon wedi dangos bod 78% o'r data ar ethnigrwydd troseddwr a 61% o'r data ar ethnigrwydd dioddefwr <u>wedi'i</u> gofnodi. Cydnabu MA fod problemau o ran ansawdd data yn golygu ei bod yn anodd iawn creu darlun o gymunedau ar lefel facro.

Cytunodd CS ei bod yn anodd iawn deall y darlun llawn pan oedd cynifer o fylchau yn y data. Gofynnodd CS beth oedd y rhesymau dros beidio â chofnodi ethnigrwydd unigolion. Nododd MA fod problemau yn codi dro ar ôl tro o ran ansawdd data. Roedd rhai meysydd gorfodol ar NICHE. Fodd bynnag, nid oedd ethnigrwydd yn faes gorfodol ar hyn o bryd. Dywedodd MA ei fod yn cael sgyrsiau am y diffygion hyn yn y system.

(ii) **Adolygu sampl ehangach o ddata ar berfformiad ar gyfer cofnodi ethnigrwydd er mwyn deall p'un a oedd hon yn broblem unigol gyda Hysbysiadau Cosb Benodedig ai peidio.**

Dywedodd MA wrth y grŵp fod yr heddlu bellach wedi adolygu'r achosion a'r digwyddiadau a gofnodwyd ar NICHE rhwng mis Ebrill 2020 ymlaen, yn ogystal â gwybodaeth y dioddefwyr a'r troseddwyr yr oedd eu manylion yn gysylltiedig â'r achosion hynny. Nododd MA fod yr adolygiad o'r wybodaeth hon wedi dangos <u>nad oedd</u> 28% o'r data ar ethnigrwydd troseddwr a 58% o'r data ar ethnigrwydd dioddefwr wedi'i gofnodi. Dywedodd MA fod tystiolaeth anecdotaidd ddiweddar yn awgrymu bod staff yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn amharod i holi dioddefwyr am eu hethnigrwydd ar adeg y cyswllt cyntaf.

Gofynnodd AD a oedd strategaeth weithredu wedi'i llunio bellach i edrych ar sgript neu gyfres o ymyriadau i oresgyn yr amharodrwydd hwn, gan fod yr heddlu bellach wedi cydnabod bod hyn yn broblem. Ychwanegodd AD, petai'r hyn a ddysgwyd yn cael ei

gyflwyno mewn ffordd hyderus a chadarnhaol am y ffordd y mae'r sefydliad yn diwallu anghenion pobl yn dda, y byddai'r staff sy'n delio â galwadau yn fwy tebygol o fod yn fwy hyderus ac, o ganlyniad, y byddai pobl yn ymgysylltu'n well.

Dywedodd MA y byddai'r camau nesaf yn cynnwys siarad â phennaeth y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r adborth hwn a thrafod sut y byddai'n ymateb iddo.

Gofynnodd AD a oedd y canfyddiad o ethnigrwydd a welir ar fideos o gamerâu a wisgir ar y corff yn cyd-fynd â'r ystadegau ar gyfer y rhai sydd wedi'u cofnodi ar ffurflenni. Cadarnhaodd MA nad oedd hyn yn cyd-fynd â chymarebau cymesuredd, o ran cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i bobl o gefndir Gwyn Prydeinig.

Nododd MA fod yr heddlu wedi ailgyfrifo ei gymarebau anghymesuredd, o ganlyniad i adolygu'r fideos o gamerâu a wisgir ar y corff a dogfennu 'ethnigrwydd hunan-ddiffiniedig swyddogion'.

Roedd JM yn deall pwysigrwydd cofnodi ethnigrwydd ar adeg y cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, pan fyddai rhywun yn ffonio 999 mewn argyfwng, gallai fod yn anodd iawn cael manylion ethnigrwydd gan yr unigolyn hwnnw. Roedd MA yn gwerthfawrogi'r adborth, a nododd hefyd fod cyfleoedd dilynol lle y gallai swyddogion gofnodi gwybodaeth nad oedd wedi'i chofnodi ar adeg y cysywllt cyntaf.

Nododd LB fod cofnodi cymaint o wybodaeth â phosibl am yr unigolyn weithiau yn berthnasol i'r alwad a'r ymateb a roddir. Nododd LB fod hyfforddiant gyda'r heddlu, gan gynnwys yr ystafell reoli, am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trawma difrifol a'r ffordd roedd hyn yn dylanwadu ar eu hymateb, wedi'i ddarparu.

Cyfeiriodd JJ unwaith eto at y problemau sy'n gysylltiedig â chasglu data a bylchau mewn cofnodion ethnigrwydd ym mhob rhan o'r heddlu ar gyfer pob mater. Roed y mater hwn yn cael ei godi'n aml yng nghyfarfodydd PALG ac roedd anghysondebau yn y data yn golygu nad oedd yn bosibl craffu ar gydraddoldeb yn effeithiol. Roedd JJ yn deall ei bod yn anodd casglu data ethnigrwydd ar adeg y cyswllt cyntaf weithiau, ond fel y trafodwyd, roedd nifer o gamau lle roedd yr heddlu yn rhyngweithio ag unigolion. Nododd JJ hefyd bryderon ynghylch cyfeiriadau at 'Gwyn Prydeinig', a gofynnodd a oedd swyddogion yn gwneud rhagdybiaethau ac, o bosibl, yn methu â chofnodi data. Er enghraifft, nodweddion, megis Sipsiwn a Theithwyr, na fyddai swyddogion yn sylwi arnynt yn seiliedig ar liw croen rhywun.

Cytunodd LJ ei bod yn thema gyffredin o ran ansawdd data. Roedd cryn drafod wedi bod mewn cyfarfodydd eraill o'r bwrdd ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â hyn. Rhoddodd LJ sicrwydd i'r grŵp y byddai'r mater hwn yn cael ei adolygu a'i fonitro'n barhaus. Nododd LJ ei bod yn galonogol bod mewnbwn gan aelodau'r panel wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffyrdd roedd yr heddlu yn gweithio ac yn meddwl.

3. Technoleg Adnabod Wynebau Awtomatig

Rhoddodd SL drosolwg byr o hanes Heddlu De Cymru o ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Awtomatig (AFR). Roedd Heddlu De Cymru ar flaen y gad o ran defnyddio technoleg AFR, ac wedi dechrau defnyddio'r dechnoleg yn 2017. Nododd SL fod Heddlu De Cymru yn defnyddio technoleg AFR mewn dau faes cyffredinol, sef technoleg adnabod

wynebau ôl-syllol (AFR Adnabod) a thechnoleg adnabod wynebau byw (AFR byw). Esboniodd SL fod technoleg adnabod wynebau ôl-syllol yn cael ei defnyddio i gymharu set o ddelweddau digidol er mwyn cynorthwyo gydag ymchwiliad, e.e. delweddau ar y cyfryngau cymdeithasol, teledu cylch cyfyng (CCTV). Cyn dechrau defnyddio technoleg adnabod wynebau ôl-syllol, byddai'n cymryd tua 10 diwrnod i'r heddlu adnabod unigolyn. Mae 'AFR Adnabod' bellach yn ei gwneud yn bosibl i unigolyn gael ei adnabod o fewn pum munud. Esboniodd SL fod defnyddio'r dechnoleg hon yn cynnig manteision sylweddol i ymchwiliad, gan ei wneud yn fwy effeithlon ac effeithiol drwy ddod ag unigolion gerbron y llys yn gyflymach a diogelu dioddefwyr a thystion sy'n gysylltiedig ag achos cyn gynted â phosibl.

Esboniodd SL fod technoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio i osod camerâu byw mewn lleoliad. Byddai'r camerâu yn sganio lluniau o wynebau mewn torfeydd a'u cymharu â rhestr wylio wedi'i phoblogi gan Heddlu De Cymru. Dywedodd SL y byddai'r system yn rhybuddio gweithredwr petai'n credu ei bod wedi adnabod unigolyn roedd yr heddlu yn chwilio amdano. Pwysleisiodd SL fod elfen ddynol y broses hon yn pennu p'un a oedd o'r farn bod y delweddau yn cyfateb i'w gilydd ai peidio, cyn i'r heddlu ryngweithio â'r unigolyn hwnnw.

Ym mis Mai 2019, bu Heddlu De Cymru yn destun adolygiad barnwrol. Craffodd llys ar ddefnydd Heddlu De Cymru o'r dechnoleg, gan edrych yn bennaf ar 'AFR byw'. Ystyriodd yr adolygiad barnwrol yn bennaf a oedd digon o ddeddfwriaeth ar waith i alluogi'r heddlu i ddefnyddio'r dechnoleg ac a oedd yr heddlu wedi cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o ran asesu'r effaith ar gydraddoldeb, ac adolygodd ddata ac asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd hefyd. Bu'r heddlu yn llwyddiannus ym mhob un o'r meysydd a adolygwyd, a chafodd ganmoliaeth gyffredinol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau, tryloywder a defnydd moesegol a chraffu ar y dechnoleg. Nododd SL fod apêl arall wedi'i gwneud wedyn yn 2020. Canmolodd y llys yr heddlu o ran tryloywder a defnydd moesegol. Fodd bynnag, roedd dau faes lle roedd y llys o'r farn bod angen gwneud gwelliannau. Esboniodd SL fod un o'r gwelliannau hyn yn ymwneud ag 'erthygl 8', sef yr hawl i fywyd preifat. Nododd y llys ei fod o'r farn bod gan Heddlu De Cymru ormod o ddisgresiwn o ran pwy oedd yn cael ei roi ar y rhestr wylio a ble roedd y dechnoleg yn cael ei defnyddio. Nododd y llys fod angen cynnwys amlinelliad manwl o gyfansoddiad y rhestrau gwylio mewn dogfen allweddol, ar lefel genedlaethol pe bai modd, er mwyn bod yn gyson. Nododd y llys hefyd fod angen i'r heddlu gymryd camau rhesymol i sicrhau nad oedd unrhyw bosibilrwydd o ragfarn yn y dechnoleg a ddefnyddiwyd.

Dywedodd SL wrth y grŵp fod Heddlu De Cymru bellach wedi datblygu dogfen fanwl er mwyn cyfyngu'r ffocws i bwy a allai fod ar y rhestr wylio a ble y gellid defnyddio'r dechnoleg. Petai'r ddogfen yn cael ei mabwysiadu gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion, byddai'n cael ei hymgorffori mewn polisïau plismona ar lefel genedlaethol.

Nododd SL fod yr heddlu yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid academaidd er mwyn deall cywirdeb a rhagfarn mewn perthynas â phob defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebau ôl-syllol a byw, ac y byddai'n parhau i werthuso hyn gyda Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu. Nododd SL nad AFR oedd yr unig her ym maes plismona, ond hefyd deallusrwydd artiffisial ehangach a dysgu peirianyddol i ddileu unrhyw bosibilrwydd o ragfarn. Dywedodd SL wrth y grŵp fod yr heddlu yn ymrwymedig i wneud llawer mwy o waith gyda chymunedau o ran ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, er mwyn dangos i gymunedau

nad oedd rhagfarn yn yr algorithmau ac, os oedd, fod mesurau lliniaru ar waith, sef y gweithredwr dynol.

Gofynnodd HJJ i aelodau PALG a oedd pryderon ynghylch y defnydd o dechnoleg AFR wedi'u codi gan aelodau o'r gymuned roeddent yn ymgysylltu â nhw, neu a oeddent yn ymwybodol o hyn drwy'r cyfryngau.

Dywedodd HT mai prif bryder ceiswyr lloches oedd y diffyg dealltwriaeth rhwng swyddogion ffiniau a swyddogion yr heddlu, a faint o fynediad a oedd gan swyddogion ffiniau drwy AFR.

Diolchodd LJ i SL am ei fewnbwn, ac atgoffodd aelodau PALG fod croeso iddynt ddod i weld technoleg AFR er mwyn deall yn well sut roedd yn gweithio yn ymarferol.

4. Anghymesuredd Hiliol

Dywedodd HJJ wrth y grŵp fod tîm y Comisiynydd wedi cynnal cyfarfod o'r bwrdd craffu ym mis Awst 2020, a ganolbwyntiodd ar anghymesuredd hiliol yn Heddlu De Cymru. Diben yr adolygiad manwl oedd ystyried amrywiaeth o ddata'r heddlu yn ôl ethnigrwydd er mwyn deall yn well ble roedd anghymesuredd ac i ba raddau. Nododd HJJ fod tîm y Comisiynydd yn edrych ar ddata penodol, megis data ar stopio a chwilio, y defnydd o rym a boddhad dioddefwyr. Roedd HJJ wedi gobeithio dangos fideos o gamerâu a wisgir ar y corff yn y cyfarfod, gan y byddai hynny wedi bod yn ddefnyddiol i'r aelodau drwy roi cipolwg annibynnol iddynt ar y ffordd roedd yr heddlu wedi ymdrin â'r achosion o stopio a chwilio, yn eu barn nhw.

Yn anffodus, roedd technoleg wedi methu ar yr achlysur hwn, ond byddai'r mater yn cael ei ystyried eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Rhoddodd HJJ drosolwg o'r gwaith sicrhau ansawdd a wnaed gan dîm y Comisiynydd a lywiodd gyfarfod y bwrdd craffu. Nododd HJJ fod tîm y Comisiynydd wedi hapsamplu 100 o fideos o gamerâu a wisgir ar y corff a ddewiswyd ar hap a 179 o gofnodion stopio a chwilio o sampl o chwiliadau stopio a gynhaliwyd ledled De Cymru rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2020. Ar y cyfan, nid oedd unrhyw bryderon penodol ac ni nodwyd unrhyw enghreifftiau pendant o achosion o stopio a chwilio a gynhaliwyd mewn ffordd annheg. Roedd y rhan fwyaf o swyddogion yn gwrtais ac roedd 90% o'r fideos o gamerâu a wisgir ar y corff yn dangos bod rhesymau dilys dros chwilio unigolion. Nododd HJJ, mewn rhai achosion, nad oedd swyddogion bob amser yn mynd drwy bob cam gofynnol wrth stopio a chwilio unigolyn, sef protocol ‘GOWISELY’.

Roedd y rhan fwyaf o'r fideos o gamerâu a wisgir ar y corff yn dangos bod swyddogion yn esbonio agweddau ar brotocol ‘GOWISELY’ cyn stopio a chwilio pobl. Fodd bynnag, roedd nifer bach o achosion lle roedd swyddogion wedi dechrau chwilio unigolyn ac wedi esbonio'r protocol naill ai yn ystod y chwiliad neu ar ôl hynny. Nododd HJJ nad oedd y fideos o gamerâu a wisgir ar y corff bob amser wedi ffilmio'r digwyddiad cyfan, a oedd yn golygu ei bod yn anodd cadarnhau a oedd y swyddogion wedi cydymffurfio'n llwyr â phrotocol ‘GOWISELY’.

Nododd HJJ hefyd fod cwestiynau wedi'u gofyn am y defnydd o efynnau. Mewn rhai achosion, gofynnwyd a oedd angen defnyddio gefynnau am fod yr unigolion yn cydweithredu

o'u gwirfodd. Ar rai achlysuron, roedd unigolion wedi'u rhoi mewn gefynnau yn syth, ac roedd protocol GOWISELY wedi'i esbonio iddynt ar ôl hynny. Roedd y defnydd o efynnau hefyd wedi achosi i rai unigolion gynhyrfu neu ddrysu ynghylch p'un a oeddent yn cael eu harestio ai peidio.

Rhoddodd HJJ grynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad o gofnodion stopio a chwilio, a nododd fod y mater yn ymwneud â rhoi derbynebau i unigolion yn dal i achosi pryder. Pwysleisiodd HJJ pa mor bwysig ydyw bod swyddogion yn esbonio hawl yr unigolyn i gael copi o'r wybodaeth hon, os bydd am gymryd camau dilynol ynglŷn â'r digwyddiad neu wneud cwyn yn y dyfodol. Roedd HJJ yn falch o nodi bod 98% o'r cofnodion a adolygwyd wedi dangos bod rhesymau dilys dros chwilio unigolion. Roedd yn galonogol gweld bod nifer y rhesymau amheus wedi lleihau ers i'r ymarfer hapsamplu cofnodion diwethaf gael ei gynnal.

Esboniodd HJJ fod tîm y Comisiynydd hefyd wedi cynnal nifer o grwpiau ffocws gyda phobl BAME leol, er mwyn deall profiadau pobl ifanc a oedd wedi cael eu stopio a'u chwilio a'u canfyddiadau o arferion yr heddlu. Nododd HJJ fod yr adborth gan bobl ifanc yn cysylltu â nifer o sylwadau o adolygiad y Comisiynydd, megis y defnydd o iaith, ansawdd y cyswllt â'r heddlu a dryswch a achosir gan iaith gyfreithiol. Er bod gan swyddogion ddyletswydd i gyfeirio at y pŵer cyfreithiol a ddefnyddir, nododd HJJ nad oedd fawr ddim cyd-destun yn aml ynghylch beth oedd ystyr hyn, a oedd yn drysu pobl ifanc ac yn achosi iddynt ddrwgdybio'r heddlu.

Dywedodd HJJ fod nifer o argymhellion bellach wedi'u cytuno, er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd.

5. Unrhyw fater arall

CAM GWEITHREDU – Diweddariadau ar amcanion y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd i'w gohirio tan y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2020.